**Rhif: LIC53367**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Diwygio Trefniadau Llywodraethu a Chyllido ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru 2025

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o farn rhanddeiliaid ar yr ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu, cyllid, rheoli perfformiad ac arolygu ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) yng Nghymru yn 2025.

## Y Camau Gweithredu sy'n Ofynnol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Cangen y Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Diwygio awdurdodau tân ac achub yng Nghymru 2025 | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

Cynnwys ........................................................................................................ 3
Proses Ymgynghori ........................................................................................................ 4
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ........................................................................ 5
- Amcanion Diwygio ........................................................................................................ 5
- Aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub ........................................................................ 7
- Gosod Cyllideb yr ATAau ........................................................................................................ 14
- Y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ........................................................................ 15
- Arolygu ATAau ........................................................................................................ 16
- Y Gymraeg ........................................................................................................ 18
- Materion Cysylltiedig ........................................................................................................ 19
Y Camau Nesaf ........................................................................................................ 21
Atodiad 1 – Rhestr o Ymatebwyr ........................................................................................................ 22

## Proses Ymgynghori

1. Yn 2025, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i newid trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau). Ysgogwyd yr ymgynghoriad gan gyfres o arolygiadau ac adolygiadau diwylliannol annibynnol a dynnodd sylw at ddiffygion sylweddol o ran arweinyddiaeth, llywodraethu, perfformiad gweithredol ac atebolrwydd ar draws tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am adborth gan randdeiliaid ledled Cymru i lywio'r broses o ddatblygu model llywodraethu mwy effeithiol, atebol a blaengar.

2. Dechreuodd ymgynghoriad 8 wythnos ar 29 Awst ac roedd yn agored ar gyfer ymatebion tan 24 Hydref 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar yr hyn y gellid ei gyflawni heb ddeddfwriaeth sylfaenol yn y tymor hwn o'r Senedd. Nod yr opsiynau oedd gwella meysydd arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau'r ATAau, cyflwyno tryloywder wrth osod cyllideb, a dull mwy cadarn o arolygu. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 16 cwestiwn, gydag opsiynau i ymateb i'r cwestiynau hynny trwy lenwi ffurflen ar-lein neu drwy e-bost. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

3. Cafodd Llywodraeth Cymru 42 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth y 42 ymateb hynny o'r canlynol:

- 8 gan awdurdodau lleol neu gyrff awdurdodau lleol
- 2 gan Awdurdodau Tân ac Achub
- 1 gan Gomisiynwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
- 2 gan Wasanaethau Tân ac Achub
- 2 gan undebau llafur a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli diffoddwyr tân,
- 2 gan gyrff cyhoeddus eraill
- 3 gan sefydliadau neu bwyllgorau eraill
- 22 gan unigolion

4. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad 1.

5. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i'r rhai a ymatebodd.

6. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chrynodeb o'i Hasesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Mae'r sefyllfa bolisi gyffredinol a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn aros yr un fath, ac mae'r math o newid i'w weithredu gan Orchymyn yn parhau i fod yn gyson â'r opsiynau ar gyfer newid sydd yn y ddogfen ei hun. Felly, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r Asesiad Effaith Integredig fel y'i cyhoeddwyd yn wreiddiol. Yn ystod y broses ymgynghori, gofynnodd aelod o'r cyhoedd i gael gweld yr Asesiad Effaith Integredig llawn a darparwyd hyn ar 21 Hydref 2025.

7. Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi'n anghywir fod cynnig ynghylch rôl Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Awdurdodau Tân ac Achub wedi tarddu o Bwyllgor

Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd.  Mae Llywodraeth Cymru wedi ymddiheuro i'r Pwyllgor am y camgymeriad hwn.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i bob un o'r cwestiynau penodol ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.  Darperir ymateb Llywodraeth Cymru fel safbwynt cyffredinol ar nifer o gwestiynau wedi'u grwpio y gofynnwyd am farn ymgyngoreion ynghylch thema benodol h.y. amcanion diwygio, aelodaeth, gosod cyllideb, fframwaith cenedlaethol, arolygiad, y Gymraeg a materion eraill.

## - Amcanion Diwygio

**C1. Ydych chi'n cytuno bod yr amcanion ar gyfer diwygio yn briodol ac yn bwysig?**

9. Cytunodd 29 o ymatebwyr fod yr amcanion ar gyfer diwygio a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn briodol ac yn bwysig. Cytunodd 10 ymatebydd â'r amcanion ond mynegodd rai amheuon neu amodau.  Roedd un ymatebydd yn anghytuno'n benodol, gan awgrymu bod dyheadau am werth am arian, tryloywder, ac ymatebolrwydd eisoes wedi'u bodloni. Nododd dau ymatebydd ansicrwydd neu ddim barn.

10. Nododd tri ymatebydd fod yr opsiynau'n canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y gellid ei gyflawni drwy is-ddeddfwriaeth yn nhymor presennol y Senedd, a bod y cyfle i ddiwygio ymhellach drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn cael ei golli. Nododd dau ymatebydd eu bod yn teimlo y dylid ariannu ATAau trwy fodel praeseptio.  Roedd y materion eraill a godwyd yn cynnwys:

- bod y trefniadau presennol wedi dyddio ac nad oeddent wedi cael sylw yn ddigonol o'r blaen.  Pwysleisiwyd yr angen am ddiwygio brys i sicrhau bod yr ATAau yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn addas i'r diben.
- y dylai diwygiadau barchu annibyniaeth weithredol a natur unigryw gwasanaethau brys.
- dylai amcanion gynnwys yr angen am fuddsoddiad cynaliadwy, goruchwyliaeth ddemocrataidd gryfach, ac ymgysylltu â'r gweithlu a'r undebau llafur.
- pryder am ddylanwad allanol a allai effeithio o bosibl ar gydbwysedd y broses o wneud penderfyniadau.
- ni ddylai gwerth am arian ddod yn ddull ar gyfer dylanwadu ar leihau gwasanaethau rheng flaen.
- pryder am aflonyddwch yn ystod pontio a'r effaith ar wasanaethau rheng flaen.

**C2. A oes amcanion eraill y dylai'r rhaglen ddiwygio eu dilyn?**

11. Nododd 28 o ymatebwyr fod amcanion eraill y dylid eu cynnwys yn y rhaglen ddiwygio. Roedd y rhain yn cynnwys cryfhau atebolrwydd democrataidd lleol, diogelu cynrychiolaeth deg, egluro rolau a chyfrifoldebau, a gwella cydweithredu â gwasanaethau brys eraill a chyrff cyhoeddus.

12. Roedd wyth ymatebydd yn teimlo bod yr amcanion eisoes yn eang gan rybuddio rhag cymhlethu'r rhaglen ymhellach, a thynnwyd sylw at bryderon am eglurder i randdeiliaid a threthdalwyr. Nid oedd chwe ymatebydd wedi mynegi barn benodol ar y cwestiwn hwn.

13. Cododd wyth ymatebydd bwysigrwydd gwaith partneriaeth ystyrlon i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a chynaliadwyedd ar alwad, a chydnabod y potensial ar gyfer rôl ehangach i'r gwasanaeth.

14. Awgrymodd pump ymatebydd y dylai fod un gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru. Roedd y rhesymau'n cynnwys arbedion maint, ac ymagwedd safonol at lywodraethu, polisi a darparu gwasanaethau.

15. Roedd tri ymatebydd yn teimlo y dylid cryfhau ffocws ar ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a thrawsnewid diwylliant.

16. Awgrymodd tri ymatebydd y dylid cryfhau goruchwyliaeth ddemocrataidd leol a diogelu cynrychiolaeth ar lefel gymunedol.

17. Roedd y materion eraill a godwyd yn cynnwys:

- annibyniaeth weithredol ar gyfer Prif Swyddogion Tân a/neu wahaniaeth cliriach rhwng gwneud penderfyniadau proffesiynol a gwleidyddol, tebyg i gyrff cyhoeddus eraill.
- cefnogi safonau cenedlaethol y gellir barnu ATAau yn eu herbyn, gan gynnwys safonau criw gofynnol ar gyfer Cymru.
- ymrwymiadau gwasanaeth dwyieithog a chydnabyddiaeth o ofynion y Gymraeg i rai aelodau.
- cefnogi cyllid aml-flwyddyn a sicrwydd na ddylai cyllido a threfniadau arolygu danseilio gallu ATAau i ddiwallu anghenion lleol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

18. Rydym yn cydnabod bod y trefniadau presennol wedi dyddio ac mae angen eu diwygio ar frys, a dyna pam main ein ffocws cychwynnol yw cyflwyno newid yn gyflym trwy is-ddeddfwriaeth. Rydym yn nodi'r galwadau gan rai ymatebwyr am newid mwy radical fel un GTA, annibyniaeth weithredol y Prif Swyddog Tân a phwerau praeseptio i'r ATAau. Fodd bynnag, byddai newidiadau o'r fath yn debygol o fod angen deddfwriaeth sylfaenol, na ellid ei chyflawni yn y tymor hwn o'r Senedd. Bydd yn fater i'r Senedd nesaf ei ystyried, ac rydym yn disgwyl i werthusiad o effaith y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn fwydo i'r broses honno.

19. Cyfeiriodd y ddogfen ymgynghori at waith ategol sy'n mynd rhagddo i ddatblygu rhaglen hyfforddi a datblygu gynhwysfawr ar gyfer aelodau'r ATAau. Rydym am roi sicrwydd i'r ymatebwyr bod y gwaith hwn yn cynnwys egluro rolau a chyfrifoldebau aelodau'r ATAau ac y bydd rolau swyddi yn cynnwys ffocws yn benodol ar ymgorffori diwylliant sefydliadol da, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys dyletswyddau statudol yr ATAau yn hyn o beth), ac ymgysylltu â'r gweithlu. Bydd y gwaith hwn hefyd yn egluro rolau a chyfrifoldebau gwahanol aelodau a swyddogion yr ATAau.

20. Rydym yn nodi sylwadau a wnaed am drefniadau cyllido, gwerth am arian ac arolygu nad ydynt yn tanseilio diogelwch y cyhoedd a gallu'r ATAau i reoli risg mewn cymunedau ac rydym yn cytuno. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'n glir y dylai mecanweithiau cyllido fod yn deg, yn dryloyw a chynhyrchu gwerth am arian, ond hefyd yn cydnabod anghenion adnoddau penodol gwasanaeth brys, ac mae ein cynlluniau i gryfhau'r broses bresennol o osod cyllideb yr ATAau yn adlewyrchu'r sefyllfa honno. Ymdrinnir â hyn ymhellach yn ein hymateb i gwestiwn 10. Ymdrinnir â rhagor o fanylion am amrywiaeth aelodau yn ein hymateb i gwestiynau 3-9 ac ymdrinnir â sylwadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ein hymateb i gwestiynau 14-15.

21. Rydym yn nodi'r sylwadau a godwyd ynghylch pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ac mewn perthynas ag ardaloedd gwledig a chynaliadwyedd ar alwad. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Gweithgor System Dyletswydd yn ôl y Galw/Diffoddwyr Tân ar Alwad o dan ei Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub i ystyried y materion allweddol hyn, ac mae disgwyl i'r Grŵp hwnnw adrodd yn ddiweddarach yn 2026. Fodd bynnag, mae'r rhain yn faterion darparu gwasanaethau na ddylid eu cynnwys mewn newidiadau ffurfiol a statudol i'r trefniadau llywodraethu yn y sector.

22. Rydym yn gwerthfawrogi'r angen i gryfhau atebolrwydd yr ATA i'w hawdurdodau lleol cyfansoddol. Rydym yn credu y bydd ein penderfyniad i fynnu bod aelodau awdurdod lleol cyfansoddol yn cael eu penodi o gweithrediaeth neu Gabinet bob awdurdod lleol cyfansoddol, yn cefnogi'r berthynas gryfach honno (gweler ein hymateb i gwestiynau 3-9).

## - <u>Aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub</u>

23. Ar hyn o bryd mae gan ATAau rhwng 24 a 28 o aelodau, wedi'u henwebu gan eu hawdurdodau cyfansoddol. Roedd yr opsiynau yn yr ymgynghoriad yn cynnwys lleihau nifer yr aelodau i un fesul awdurdod lleol, penodi o gabinetau awdurdodau lleol, penodi aelodau annibynnol gyda'r awgrym bod dwy ran o dair o benodiadau awdurdodau lleol a thraean wedi'u penodi gan Weinidogion Cymru. Fe wnaethom hefyd ofyn pwy ddylai benodi aelodau annibynnol, beth ddylai eu rôl gynnwys, ac a ddylid cael cadeiryddion annibynnol. Mae crynodeb o'r adborth a gafwyd ar gwestiynau aelodaeth (cwestiynau 3 – 9) wedi'i nodi ym mharagraffau 24 i 47 isod,

gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r holl adborth ar aelodaeth wedi'i nodi ym mharagraffau 48 i 57.

**C3. Ydych chi'n credu y dylid lleihau aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn darparu proses gwneud penderfyniadau sy'n symlach ac yn fwy effeithlon ac effeithiol?**

24. Cytunodd 20 o ymatebwyr y dylid lleihau aelodaeth yr ATAau gyda phump arall yn cytuno â rhywfaint o amodau. Roedd sylwadau sy'n cefnogi'r cynnig yn cynnwys bod ansawdd yr aelodau yn ffactor pwysicach na maint, byddai aelodaeth lai yn darparu penderfyniadau â mwy o ffocws, atebolrwydd ac effeithiolrwydd, ac y byddai'n darparu mwy o ystwythder ac eglurdeb ac yn gwella cyfathrebu ag awdurdodau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys chwe awdurdod lleol, un ATA ac un GTA, a Chomisiynwyr De Cymru. Ymhlith y sylwadau cymwys, dywedwyd y dylai aelodaeth awdurdodau lleol barhau i gynnwys y mwyafrif o aelodaeth yr ATAau er mwyn sicrhau bod cysylltiad lleol yn parhau, bod angen digon o aelodau ar gyfer craffu effeithiol, cydbwysedd gwleidyddol a chynrychiolaeth gyfrannol, a'r angen i sicrhau amrywiaeth aelodau.

25. Nid oedd wyth ymatebydd yn cytuno y dylid lleihau aelodaeth. Nid oedd y materion a godwyd yn gwbl gyson. Roeddent yn cynnwys:

- bod y system bresennol yn darparu cynrychiolaeth deg i awdurdodau lleol.
- bod lleihau'r aelodau yn peryglu cyfyngu ar amrywiaeth.
- nad oedd unrhyw dystiolaeth o berfformiad gwael.
- cydnabyddiaeth bod heriau gyda'r system bresennol.
- y byddai dull amgen yn cynnwys diwygio cyfansoddiadau'r ATAau yn lle hynny, i egluro rôl a chylch gwaith aelodau ymhellach.
- dylai diwygio flaenoriaethu hyfforddiant, ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- pryder ynglŷn â phenodi aelodau Cabinet awdurdodau lleol gan gynnwys pryder am faterion capasiti.
- y dylanwadir yn haws ar grŵp llai o aelodau.

26. Nid oedd naw ymatebydd naill ai'n cynnig barn, neu nid oedd eu hymateb yn adlewyrchu dull a ffafrir.

27. Roedd sylwadau eraill a wnaed yn cynnwys:

- Mae newid mwy radical yn cael ei ffafrio yn y tymor hwy.
- Dylai tâl adlewyrchu mwy o gyfrifoldeb os bydd niferoedd yn cael eu lleihau.
- Pwysigrwydd sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant aelodau (gan gynnwys ynghylch dyletswyddau cydraddoldeb).
- Roedd manteision i aelodaeth lai gan gynnwys dileu oedi wrth wneud penderfyniadau.
- Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon fyrddau llai gydag aelodau a benodwyd yn uniongyrchol.

- Weithiau roedd aelodau yn gwneud penderfyniadau â chymhelliant gwleidyddol yn hytrach na phenderfyniadau er budd y gwasanaeth – roedd sgiliau yn hytrach na chysylltiad â phlaid yn bwysig.

**C4. Ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol enwebu un aelod o Awdurdod Tân ac Achub yr un?**

28. Roedd 16 o ymatebwyr yn cefnogi, neu yn cefnogi gyda rhywfaint o amodau, enwebu un aelod fesul awdurdod lleol. Nododd tri o'r ymatebion hynny y dylai aelodau ddod o Gabinetau awdurdodau lleol (er bod angen ystyried eu gallu a'u taliad), a nododd dau ymatebydd y dylid mandadu aelodau i weithredu er budd gorau ardal gyfan yr ATA.

29. Nid oedd 19 o ymatebwyr yn credu y dylai awdurdodau lleol enwebu un aelod yr un. Roedd naw ymatebydd yn teimlo y dylai aelodaeth adlewyrchu maint poblogaeth awdurdod lleol a chyfraniad y gyllideb, cododd saith ymatebydd bryderon am gydbwysedd gwleidyddol, cododd pedwar ymatebydd bryderon am allu a phwysau ar aelodau, a dau ohonynt wedi codi pryderon am gynrychiolaeth aelodau'r cabinet am y rhesymau hynny. Cododd tri ymatebydd bryderon am yr effaith ar amrywiaeth aelodau. Roedd tri ymatebydd yn pryderu y byddai ATAau yn rhy fach i fod yn effeithiol. Cynigiwyd dau fodel amgen; un yn cyfeirio at aelodaeth Panel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, ac un yn awgrymu y dylai'r ddau awdurdod lleol mwyaf yn ATA De Cymru gael dau aelod neu y dylid cael pleidleisiau wedi'u pwysoli.

30. Nid oedd gan chwe ymatebydd unrhyw farn neu nid oeddent yn nodi dewis penodol.

**C5. Ydych chi'n credu y dylai Awdurdodau Tân ac Achub gael aelodau a benodir yn annibynnol hefyd?**

31. Roedd 30 o ymatebwyr yn cefnogi penodi aelodau annibynnol, gyda 10 ohonynt yn nodi rhywfaint o amodau. Nid oedd saith ymatebydd yn cefnogi penodi aelodau annibynnol, ac nid oedd pump ymatebydd wedi darparu sylw neu ddim yn nodi dull a ffafrir.

32. Roedd y safbwyntiau cefnogol yn cynnwys:

- Y cyfle i ychwanegu amrywiaeth at aelodaeth gyffredinol yr ATAau.
- Y potensial i aelodau annibynnol ddod â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad annibynnol, a thrwy hynny wella craffu a her.
- Byddai aelodau annibynnol yn ehangu persbectif y tu hwnt i'r gwleidyddol ac yn gwella didueddrwydd.
- Gwerth dod ag arbenigedd o gyllid, llywodraethu, archwilio, risg, trawsnewid, ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Bod modelau tebyg mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus yn gwella llywodraethu corfforaethol.
- Y byddent yn lleihau'r baich ar aelodau awdurdodau lleol.

33. Roedd mesurau diogelu a gynigiwyd yn cynnwys yr angen am brosesau recriwtio clir, teg ac agored, rolau wedi'u diffinio'n glir a hyfforddiant llawn, a chyfyngu ar gyfran yr aelodau annibynnol. Cyfeiriodd sylwadau at yr angen i ategu at atebolrwydd democrataidd, a'i gryfhau, ac y dylai aelodau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau fod yn atebol i drethdalwyr y cyngor.

34. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar y diffyg atebolrwydd democrataidd canfyddedig a'r heriau a brofwyd mewn cyrff cyhoeddus eraill.

**C6. Ydych chi'n credu y dylai aelodau annibynnol o Awdurdodau Tân ac Achub gael eu penodi gan Weinidogion Cymru?**

35. Roedd 11 o ymatebwyr o'r farn y dylai aelodau annibynnol gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, nid oedd 19 ohonynt yn cytuno (naw ohonynt yn awdurdodau lleol neu ATAau) ac nid oedd gan chwech o ymatebwyr farn neu nid oeddent yn adlewyrchu dewis yn glir. Cynigiodd chwech o ymatebwyr ddull hybrid amgen.

36. Roedd cefnogaeth i benodiadau Gweinidogion Cymru yn cynnwys eu bod yn ychwanegu hygrededd, y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth, a tharfu ar y drefn sefydledig.

37. Ymhlith y pryderon a godwyd oedd y risg o wleidyddiaethu'r broses a gwanhau llywodraethu lleol. O'r 19 ymatebydd a anghytunodd, roedd naw o'r farn y dylai'r awdurdodau lleol cyfansoddol, yr ATAau eu hunain, neu gyfuniad o'r ddau, ymgymryd â'r broses benodi. Awgrymodd tri o'r ymatebwyr hyn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn rhan o'r broses. Awgrymwyd gallu goruchwylio neu ymgynghori.

38. Awgrymodd chwech o ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru wneud y penodiadau ond gyda rhanddeiliaid yn rhan lawn o'r broses recriwtio a dethol. Ymhlith y rhanddeiliaid a awgrymwyd oedd CLILC, awdurdodau lleol, ATAau ac Undebau.

**C7. Ydych chi'n cytuno y dylai aelodau annibynnol ffurfio traean o aelodaeth gyffredinol Awdurdodau Tân ac Achub?**

39. Cytunodd 18 ymatebydd y dylai aelodau annibynnol ffurfio traean o aelodaeth yr ATAau (gan gynnwys pum awdurdod lleol ac un ATA a Chomisiynwyr De Cymru). Cytunodd pedwar ymatebydd arall â rhywfaint o amodau. Y materion a godwyd oedd:

- Dylai fod o leiaf hanner ond roedd traean yn gyfaddawd da ar hyn o bryd.
- Dylai fod hyd at draean ond gydag elfen o ddewis lleol wedi'i alinio â dulliau ehangach o gyd-ddewis.
- Dylai'r broses gwneud penderfyniadau adlewyrchu cynrychiolaeth gyfrannol neu bleidleisio wedi'i bwysoli.
- Ni ddylai aelodau annibynnol fod ag unrhyw ymlyniad gwleidyddol.

40. Nid oedd 13 o ymatebwyr yn cefnogi cyfran o draean. Roedd tri ymatebydd yn teimlo bod hyn yn ormod, tra nad oedd un ymatebydd yn credu ei fod yn ddigon uchel. Roedd awgrymiadau amgen yn cynnwys capio aelodau annibynnol sydd â hawliau pleidleisio llawn ar 25% neu osod y gyfran ar 20%.

41. Nid oedd gan saith ymatebydd unrhyw farn neu nid oeddent yn mynegi safbwynt a ffafrir.

**C8. Ydych chi'n credu y dylid penodi aelodau annibynnol i weithredu fel aelodau llawn o'r Awdurdodau Tân ac Achub?**

42. Cytunodd 27 o ymatebwyr y dylid penodi aelodau annibynnol yn aelodau llawn o'r ATAau (gan gynnwys pedwar awdurdod lleol, dau ATA a Chomisiynwyr De Cymru). Nid oedd 10 ymatebydd yn cytuno (roedd pedwar o'r rhain yn awdurdodau lleol) ac ni roddodd pump ymatebydd ateb, neu nid oedd eu hymateb yn dangos sefyllfa a ffefrir.

43. Yn y sylwadau cefnogol dywedwyd y byddai'r dull hwn yn sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu hystyried yn wirioneddol. Roedd yr ymatebion hefyd yn adlewyrchu bod aelodaeth lawn yn hanfodol ar gyfer cyfreithlondeb ac effaith aelodau annibynnol.

44. Roedd sylwadau gan y rhai a oedd yn anghytuno yn cynnwys pryderon y gallai rhoi pwerau pleidleisio i aelodau annibynnol effeithio ar atebolrwydd lleol.

**C9. Ydych chi'n credu y dylai Awdurdodau Tân ac Achub gael Cadeiryddion annibynnol, ac os felly pwy ddylai eu penodi?**

45. Roedd 14 o ymatebwyr o'r farn y dylai ATAau gael cadeiryddion annibynnol, ymhlith y rhain, roedd saith yn credu y dylent gael eu penodi gan Weinidogion Cymru.

46. Nid oedd 20 o ymatebwyr yn credu y dylai ATAau gael Cadeiryddion annibynnol. Eglurodd 11 o'r ymatebwyr hyn eu bod yn teimlo y dylai Cadeiryddion gael eu penodi gan ATAau o fewn eu haelodaeth eu hunain. Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylid cynnwys aelodau annibynnol. Roedd pum ymatebydd yn teimlo y dylai penodi cadeiryddion ac is-gadeiryddion ddod gan aelodau etholedig awdurdodau lleol yn unig, a nododd pedwar ymatebydd y dylai pob aelod fod yn gymwys.

47. Nid oedd gan wyth ymatebydd farn neu ddim yn mynegi dewis.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

48. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl sylwadau a wnaed gan ymatebwyr mewn perthynas â'r cwestiynau aelodaeth a godwyd yn yr ymgynghoriad. Gan ystyried y sylwadau hyn, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol

a Thai ddatganiad ysgrifenedig i Senedd Cymru ar 17 Rhagfyr (Datganiad Ysgrifenedig: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub (17 Rhagfyr 2025) | LLYW.CYMRU) yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i weithredu'r newidiadau canlynol i aelodaeth yr ATAau:

- Lleihau nifer aelodau'r ATAau i un fesul awdurdod lleol cyfansoddol, o bob awdurdod lleol cyfansoddol, gweithrediaeth neu Gabinet, gyda'r nod o symleiddio a chryfhau'r broses o wneud penderfyniadau strategol ac atebolrwydd.
- Penodi aelodau ychwanegol i ffurfio traean o aelodaeth gyffredinol yr ATAau, gan ddod â medrusrwydd arbenigol a mewnwelediad a her annibynnol. Bydd aelodau annibynnol yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru ond gyda chyfranogiad llawn awdurdodau lleol cyfansoddol ac ATAau.
- Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i'w hethol o fewn aelodaeth gyffredinol yr ATAau (awdurdod lleol cyfansoddol ac aelodau annibynnol) gan yr ATAau, gan ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfansoddol a'r gweithlu yn ysbryd Partneriaeth Gymdeithasol.

49. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cefnogi lleihau nifer aelodau'r ATAu sy'n cefnogi'r nod o wneud penderfyniadau mwy effeithiol ac effeithlon. Rydym yn nodi bod yr opsiwn o leihau aelodaeth awdurdodau lleol i un fesul awdurdod lleol yn cael ei gefnogi'n llai da gyda phryderon yn cael eu codi ynghylch colli cydbwysedd gwleidyddol, a chynrychiolaeth gyfrannol yn seiliedig ar boblogaeth awdurdod lleol a chyfraniad ariannol canlyniadol. Fodd bynnag, cyrff gweithredol yw ATAau, nid rhai ymgynghorol neu gynrychioladol. Rhaid i aelodau sy'n gynghorwyr weithredu er budd gorau'r ATA yn ei gyfanrwydd ac nid eu hardal awdurdod lleol. Er bod hynny'n wir, rydym yn gwerthfawrogi'r angen i gryfhau'r berthynas a'r atebolrwydd rhwng ATAau a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i benodi aelodau awdurdod lleol cyfansoddol o weithrediaeth pob cyngor yn cefnogi'r berthynas gryfach honno.

50. Rydym yn nodi pryderon a godwyd ynghylch gallu aelodau cabinet awdurdodau lleol i ymgymryd â'r rôl o fod yn aelod enwebedig yr ATA ar gyfer eu hawdurdod lleol cyfansoddol. Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod y mater hwnnw yn y ddogfen ymgynghori ei hun. Bydd penodi aelodau annibynnol i ffurfio traean o'r aelodaeth felly yn darparu cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol yn ogystal â dod â safbwyntiau, gwybodaeth a sgiliau newydd. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro effaith aelodaeth yr ATAau ar aelodau cabinet awdurdodau lleol cyfansoddol. Bydd canlyniad y monitro hwnnw yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw adolygiad o ddiwygio llywodraethu mwy radical yn y dyfodol. Nid yw'r angen am ddiwygio mwy radical a godwyd gan nifer o ymatebwyr (megis byrddau a benodwyd cwbl annibynnol, un GTA i Gymru, neu Brif Swyddogion Tân sy'n cael statws corfforaethol unigol) wedi'i ddiystyru, ond maent yn fater ar gyfer tymor nesaf y Senedd.

51. Rydym yn cydnabod materion a godwyd ynglŷn ag effaith gostyngiad mewn aelodau awdurdodau lleol cyfansoddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a byddwn yn gofyn i'r awdurdodau lleol cyfansoddol ystyried amrywiaeth eu haelodau enwebedig ar y cyd wrth wneud penderfyniadau ynghylch aelodaeth. Rydym hefyd yn disgwyl i awdurdodau lleol cyfansoddol fod eisiau enwebu aelodau cabinet y mae eu sgiliau

a/neu bortffolios yn cyd-fynd orau â gwaith ATAau ac felly rydym yn gwerthfawrogi'n llwyr y gall cynrychiolaeth amrywiol fod yn anodd iawn i'w chyflawni. Felly, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn adeiladu ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y broses o recriwtio aelodau annibynnol, fel y cynigir gan nifer o ymatebwyr.

52. Rydym yn nodi'r sylwadau sydd wedi'u gwneud ynglŷn â thâl aelodau a byddwn yn codi'r rhain mewn trafodaethau gyda Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC). Mae'r CDFfC yn gyfrifol am osod y cyfraddau tâl ar gyfer cynghorwyr awdurdodau lleol, gan gynnwys aelodau'r ATAau. Byddwn yn rhannu'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda CLILC ar ddisgrifiadau swyddi aelodau a gofynion gwybodaeth a sgiliau cysylltiedig gyda'r CDFfC i gefnogi eu trafodaethau.

53. Er bod yr ymgynghoriad yn defnyddio'r term 'aelodau annibynnol' i ddechrau, rydym wedi dewis disodli'r derminoleg hon gydag 'aelodau ychwanegol'. Nod y newid hwn yw atal unrhyw ddryswch gyda chynghorwyr a etholir yn annibynnol ac i bwysleisio bod y rolau hyn yn cael eu penodi ar sail teilyngdod a medrusrwydd arbenigol, gyda chyfranogiad awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Mewn deddfwriaeth, cyfeirir at aelodau ychwanegol fel aelodau a benodwyd gan Weinidog Cymru.

54. Rydym yn croesawu cefnogaeth i benodi aelodau ychwanegol, gan nodi bod safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylent ffurfio traean o'r aelodaeth gyffredinol, rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai fod llai ac eraill yn awgrymu y dylai fod mwy. Fodd bynnag, roedd mwy na hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r opsiwn hwn ac roedd cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ar 17 Rhagfyr yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i weithredu'r dull hwn. Bydd aelodau ychwanegol yn cael eu penodi i weithredu fel aelodau llawn o'r ATAau fel y cefnogir gan y mwyafrif o'r ymatebwyr.

55. Rydym yn nodi nad oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi penodi aelodau ychwanegol gan Weinidogion Cymru, gydag awgrymiadau y dylai'r penodiadau hyn gael eu gwneud gan ATAau neu awdurdodau lleol. Rydym yn cytuno bod mewnbwn lleol yn ffactor pwysig yn y penodiad ac felly rydym wedi ystyried y cynigion amgen gan rai ymatebwyr a awgrymodd fodel hybrid yn lle hynny. Felly, bydd Gweinidogion Cymru yn penodi aelodau annibynnol drwy broses penodi cyhoeddus lawn, deg ac agored ond gyda chyfranogiad llawn ATAau, awdurdodau lleol ac Undebau yn y broses. Byddwn yn datblygu'r broses recriwtio mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, ac yn cynnwys ATAau, awdurdodau lleol ac Undebau yn y broses ddethol hefyd. Fel y nodir ym mharagraff 51 uchod, byddwn yn ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o'r broses.

56. Rydym yn cydnabod nad oedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn cefnogi penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gan Weinidogion Cymru ac yn derbyn bod achos cyfreithlon dros benodi'r rhain o fewn aelodaeth gyffredinol pob ATA a chan yr ATA. Fodd bynnag, credwn na ddylai'r rolau hyn gael eu cyfyngu i aelodau awdurdod lleol cyfansoddol. Rydym eisoes wedi nodi y bydd aelodau annibynnol yn cael eu penodi fel aelodau llawn o'r ATAau trwy broses recriwtio drylwyr, a gyda'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol, a bod achos clir a chyfiawn dros eu cynnwys ym mhroses enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet felly wedi cyhoeddi y bydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cael eu penodi o fewn aelodaeth

gyffredinol yr ATAau (awdurdodau lleol cyfansoddol ac aelodau annibynnol) gan yr ATAau, gan ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfansoddol a'r gweithlu fel rhan o'r broses.

57. Roedd gwybodaeth a sgiliau, hyfforddiant a chefnogaeth aelodau yn nodwedd allweddol yn yr ymatebion a dderbyniwyd. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori ei hun, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu CLILC i ymgymryd â gwaith i nodi rolau a chyfrifoldebau aelodau'n glir, a'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol, ac i ddatblygu pecyn hyfforddi a chymorth cynhwysfawr i aelodau yn seiliedig ar y rhain. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CLILC i sicrhau bod y gwaith hwn yn cwmpasu'r cynlluniau ar gyfer newid y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cyhoeddi. Rydym eisoes wedi nodi pwysigrwydd y gwaith hwn sy'n sail i'r broses enwebu awdurdodau lleol, a'r broses benodi ychwanegol.

## - <u>Gosod Cyllideb yr ATAau</u>

58. Cyfeiriodd y ddogfen ymgynghori at dri opsiwn i gryfhau gwaith gosod cyllideb yr ATAau: cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, praesept treth gyngor (a fyddai'n debygol o gael ei gyflawni drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn unig), neu gryfhau'r trefniant presennol fel bod yn rhaid i ATAau ymgynghori â'u hawdurdodau lleol cyfansoddol er mwyn dod i gytundeb ar eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ond nododd mai'r unig opsiwn tymor byr hyfyw oedd cryfhau trefniadau gosod cyllideb lleol cyfredol.

**C10. Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ymgynghori'n ffurfiol gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ag awdurdodau lleol ar lefel cyllid Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn?**

59. Cytunodd 22 ymatebydd neu fe wnaethant gytuno â rhywfaint o amodau. Roedd hynny'n cynnwys 13 o ymatebwyr unigol, pedwar awdurdod lleol / cyrff cynrychioliadol awdurdodau lleol. Ymhlith y materion a godwyd oedd yr angen am eglurder ynghylch datrys anghydfodau, bod unrhyw system yn dal i sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i ariannu'n ddigonol i gyflawni, a'r angen i fodloni terfynau amser gosod cyllideb. Roedd materion eraill yn cynnwys yr angen am fformiwla ariannu ar gyfer cytuno ar gyfraniadau a fframweithiau cyllido aml-flwyddyn.

60. Roedd naw ymatebydd yn anghytuno ac nid oedd 10 ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno. Nododd pedwar ymatebydd fod ymgynghoriad eisoes yn digwydd. Ymhlith y materion eraill a godwyd oedd pryderon am ffocws ar werth am arian a'r potensial i danariannu'r gwasanaeth, a cheisiwyd sicrwydd na fyddai gan awdurdodau lleol bŵer feto yn y gyllideb.

61. Y mater a godwyd fwyaf oedd yr angen i fodel praeseptio gael ei archwilio yn y tymor hwy. Cododd 10 ymatebydd y mater hwn yn gyffredinol, gan gynnwys chwe awdurdod lleol a CLILC.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

62. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried barn yr ymatebwyr ac mae'n parhau i fod yn argyhoeddedig bod angen newid yn y maes hwn. Mae'r trefniadau presennol yn anghytbwys ac â diffyg atebolrwydd. Maent yn creu'r potensial ar y lleiaf i wasanaethau tân ac achub gael blaenoriaeth ariannu ormodol dros wasanaethau awdurdodau lleol eraill yr un mor hanfodol. Felly, rydym yn bwriadu diwygio Gorchmynion Cyfuno ATA i gyflwyno gofyniad statudol i ATAau ymgynghori ag awdurdodau lleol cyfansoddol cyn pennu eu cyllideb, er mwyn dod i gytundeb. Bydd y gofyniad hwn yn cynnwys disgwyliadau bod ATAau yn darparu datganiad i'r awdurdodau cyfansoddol ar sut y bydd eu hamcangyfrif treuliau net yn hyrwyddo gwaith cyflawni eu swyddogaethau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol orau.

63. Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch dyddiadau cau gosod cyllideb a datrys anghydfodau lle nad oes cytundeb yn cael ei gyrraedd. Ni fydd y ddyletswydd i ymgynghori "er mwyn dod i gytundeb" yn creu dyletswydd absoliwt i gytuno; yn hytrach bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau ac awdurdodau lleol cyfansoddol ymgysylltu'n ystyrlon ac yn adeiladol gyda'r bwriad o geisio cytundeb. Ni fydd y ddeddfwriaeth yn rhagnodi rhagamodau (megis cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru) cyn y gall ymgynghori ddechrau. Bydd hyn yn caniatáu i ATAau gynllunio eu prosesau a sicrhau eu bod yn cwrdd â'u dyddiad cau statudol i osod cyllideb erbyn 15 Chwefror bob blwyddyn.

64. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi'r diddordeb eang mewn archwilio model praeseptio dros y tymor hwy ac, yn amodol ar farn y Llywodraeth newydd, bydd yn ystyried hyn ymhellach fel rhan o waith ehangach ar drefniadau llywodraethu a chyllido ATAau.

## - <u>Y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub</u>

65. Nododd y ddogfen ymgynghori fod gan Weinidogion Cymru bellach bwerau i gyflwyno gofynion adrodd ar berfformiad ar gyfer ATAau, y gellid eu cysylltu'n benodol â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. Nododd fod Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub diwygiedig yn cael ei ddatblygu ac y byddai'n ymgynghori ag ef cyn bo hir, ac y byddai trefniadau perfformiad newydd yn cael eu datblygu ar ôl ei gyflwyno gyda chynnig manwl yn destun ymgynghoriad maes o law. Cyfeiriwyd at y cynigion ar gyfer cyflwyno Fframwaith diwygiedig a chefnogi trefniadau rheoli perfformiad yn yr ymgynghoriad i ddarparu darlun cliriach o sut y bydd yr holl elfennau amrywiol o ddiwygio yn gweithio gyda'i gilydd. Serch hynny, croesawyd safbwyntiau cynnar gan ymgyngoreion ar y trefniadau rheoli perfformiad hyn.

**C11. A oes gennych chi unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch sut y dylid adrodd yn erbyn y Fframwaith Cenedlaethol ac i bwy y dylid adrodd?**

66. Rhoddodd 31 o ymatebwyr farn. Roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys:

- roedd y Fframwaith Cenedlaethol presennol wedi dyddio ac roedd angen ei ddiweddaru.
- pwysigrwydd tryloywder, hygyrchedd cyhoeddus, ac atebolrwydd lleol,
- cefnogaeth ar gyfer adrodd rheolaidd (blynyddol),
- cefnogaeth ar gyfer archwilio ac arolygu annibynnol rheolaidd,
- barn gymysg ar bwy ddylai ATAau roi adroddiadau perfformiad iddynt. Awgrymwyd adrodd i'r ATA, i awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru, neu gyfuniad o'r rhain i gyd.
- yr angen am ymgynghori â'r undeb ar berfformiad ac am adroddiadau i fynegi barn leiafrifol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

67. Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a gafwyd gan ymatebwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar gynnwys Fframwaith Cenedlaethol diwygiedig rhwng 22 Hydref ac 17 Rhagfyr 2025. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw wedi'u dadansoddi a bydd y Fframwaith diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth; mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwnnw ar gael yma: [Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub | LLYW.CYMRU]. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn i'w bwydo i mewn i drefniadau perfformiad sy'n ymwneud â chyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith hwnnw, y dywedasom y byddai'n cael eu datblygu'n fanwl ac yn destun ymgynghoriad arnynt maes o law. Bydd barn yr ymatebwyr yn cael ei hystyried yn y cam ffurfiannol hwnnw cyn ymgynghori ar gynigion rheoli perfformiad llawn.

## - Arolygu ATAau

68. Mae'r cyfrifoldeb am arolygu ATAau yn gorwedd gyda'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub a'r Arolygydd penodedig fel rhan o'u rôl Arolygydd, sy'n ymgymryd â'r rôl yn unigol heb unrhyw gefnogaeth arferol. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai swyddogaeth arolygu uwch ei chynnwys; cynllun arolygu tymor canolig wedi'i gyhoeddi a deunydd arolygu safonol, rhaglen sy'n cwmpasu holl ddyletswyddau a swyddogaethau ATAau (sy'n cwmpasu pobl a diwylliant, dyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth, llywodraethu, cyfeiriad strategol a rheoli risg cymunedol, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gwerth am arian a chyflawni gweithrediadau), canfyddiadau cyhoeddedig y gall y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill eu deall ac sydd hefyd yn darparu ar gyfer cymhariaeth ledled Cymru ac o bosibl mewn mannau eraill, ac sy'n ffurfio elfen annatod o fecanweithiau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad ATAau.

**C12. Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a'r gofynion ar gyfer rhaglen arolygu i Gymru fel y nodir ar dudalen 19 y ddogfen ymgynghori?**

69. Cytunodd 31 o ymatebwyr, neu fe wnaethant gytuno â rhywfaint o amodau, â'r egwyddorion a'r gofynion ar gyfer rhaglen arolygu a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Dim ond tri ymatebydd oedd yn anghytuno â'r egwyddorion, ac nid oedd wyth ymatebydd wedi darparu barn glir.

70. Rhai o'r materion a godwyd gan ymatebwyr oedd:

- yr angen am ymgynghoriad Undebau/staff fel rhan o'r broses arolygu,
- yr angen i arolygiad, gan gynnwys canlyniadau arolygu, gael eu hariannu'n ddigonol,
- yr angen i arolygiadau ganolbwyntio ar ganlyniadau cymunedol, nid proses yn unig,
- pwysigrwydd cynnwys arweinyddiaeth, llywodraethu, diwylliant, a chydraddoldeb a chyfraith a dyletswyddau hawliau dynol,
- absenoldeb safonau cenedlaethol,
- pwysigrwydd ymreolaeth weithredol yn cael ei chynnal, gydag ATAau yn gallu gweithredu argymhellion gan ystyried risg ac amgylchiadau lleol, capasiti a goblygiadau ariannu,
- y potensial i ddysgu o brosesau arolygu eraill.

**C13. Ydych chi'n cytuno bod angen mynd ati mewn ffordd wahanol i arolygu'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru? Os felly, pa agweddau ar yr opsiynau yn y papur hwn y dylid bwrw ymlaen â nhw?**

71. Cytunodd 28 ymatebydd bod angen dull gwahanol, nid oedd pedwar yn cytuno, ac nid oedd 10 yn rhoi safbwynt clir. Roedd y materion a'r cynigion allweddol a ddarparwyd yn gymysg a dim ond ychydig o gysondeb o ran safbwyntiau a gafwyd:

- Awgrymodd pum ymatebydd fodel tebyg i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi,
- Cyfeiriodd chwe ymatebydd at yr angen i'r broses gael ei hariannu'n ddigonol.

72. Ymhlith y materion eraill a godwyd oedd peidio â chefnogi un model arolygydd, gwahanu swyddogaethau arolygu a chynghori rôl y Prif Gynghorydd Tân ac Achub a'r Arolygydd, model Cymreig gwahanol wedi'i seilio ar Bartneriaeth Gymdeithasol, ffafrio rhaglen arolygu ar sail risg sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yr angen am wahaniaethu clir rhwng archwilio ac arolygiad, eglurder ynghylch sut mae cynigion yn ymwneud â dyletswyddau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac arolygiad yn cael ei ategu gan asesiadau cymheiriaid rheolaidd megis yr Asesiadau Panel Perfformiad a ddefnyddir gan awdurdodau lleol. Nododd tri ymatebydd fod angen mwy o fanylion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

73. Rydym yn croesawu cefnogaeth ymatebwyr i fodel arolygu gwell ar gyfer Cymru a'r egwyddorion ar gyfer model o'r fath. Byddwn nawr yn dilyn model arolygu annibynnol, cynhwysfawr gwell ar gyfer Cymru, o dan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru a benodwyd a gyda chysylltiadau cryf â'r arolygiaethau eraill ledled y DU. Bydd rôl a theitl y Prif Gynghorydd Tân ac Achub a'r Arolygydd yn newid yn ffurfiol i adlewyrchu'n gliriach y ffocws ar arolygu ac i bwysleisio annibyniaeth y swyddogaeth. Mae gan y dull hwn gefnogaeth lawn y deiliad swydd presennol. Mae adnoddau ychwanegol ar gael ar gyfer y swyddogaeth arolygu. Bydd meini prawf arolygu ehangach, rhaglenni arolygu a mecanweithiau adrodd newydd yn cael eu datblygu gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub a'r Arolygydd mewn ymgynghoriad ag ATAau ac Undebau a rhanddeiliaid eraill. Bydd y materion a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i gwestiwn 12 yn cael eu rhannu gyda'r Prif Arolygydd i'w bwydo i'r broses ddatblygu, ond mae'n werth nodi bod rhai o'r materion a nodwyd eisoes wedi'u cydnabod fel gofynion system newydd yn y ddogfen ymgynghori ei hun, a nododd y byddai angen i raglen arolygu gwmpasu holl ddyletswyddau a swyddogaethau ATAau, a dylai gynnwys pobl a diwylliant, dyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth, llywodraethu, cyfeiriad strategol a rheoli risg cymunedol, yn ogystal ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gwerth am arian a chyflawni gweithredol.

## - <u>Y Gymraeg</u>

**C14. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai’r cynigion polisi uchod yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Beth fyddai’r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

74. Roedd 12 o ymatebwyr o'r farn y gallai'r newidiadau gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Roedd tri ymatebydd yn teimlo y gallai fod effeithiau negyddol pe bai'r gostyngiad yn yr aelodaeth yn arwain at ostyngiad canlyniadol yn nifer yr aelodau sy'n siarad Cymraeg. Nid oedd 27 o ymatebwyr yn darparu barn neu ddim yn nodi barn glir ynghylch a fyddai newid yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol.

75. Roedd rhai o'r materion a godwyd ar draws yr ystod o ymatebion yn cynnwys:

- Bod ATAau yn parhau i fod yn ddarostyngedig i Ddeddf yr Iaith Gymraeg, ac unrhyw reoliadau a chanllawiau cysylltiedig ar gyfer cyrff sector cyhoeddus.
- Bod cyfleoedd i greu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg drwy lywodraethu, hyfforddiant a phrosesau ymgysylltu ehangach â’r ATAau. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys sicrhau bod dogfennau, cyfarfodydd a chyfathrebiadau swyddogol yn ddwyieithog, ystyried gofynion y Gymraeg yn y broses penodi aelodau ychwanegol, a sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg ar gael i aelodau a staff.

**C15. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion polisi er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

76. Awgrymodd 16 o ymatebwyr ffyrdd y gellid llunio'r cynigion polisi i gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd y cynigion yn cynnwys safonau ar gyfer adrodd dwyieithog, gofynion y Gymraeg ar gyfer rolau arweinyddiaeth, gan gynnwys ar gyfer aelodau'r ATAau, monitro ac adrodd am ddefnydd o'r Gymraeg mewn ATAau, gan gynnwys wrth ddarparu gwasanaethau, a chynnwys cydymffurfiaeth â'r Gymraeg mewn prosesau arolygu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

77. Rydym yn croesawu barn ymatebwyr ar yr effeithiau posibl ar y Gymraeg, gan gynnwys awgrymiadau i gryfhau llywodraethu, cyfathrebu a hyfforddiant dwyieithog. Rydym hefyd yn cydnabod pryderon y gallai newidiadau i aelodaeth ATAau leihau nifer yr aelodau sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, does dim rheswm pam y byddai o reidrwydd yn lleihau cyfran yr aelodau Cymraeg eu hiaith. Fel y trafodwyd yn ein hymateb i Gwestiynau 3-9, bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y broses o recriwtio aelodau annibynnol.

78. Bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn parhau i fod ynghlwm wrth Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg, a darparu gwasanaethau dwyieithog ar draws eu swyddogaethau. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn parhau i fod heb eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

79. Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, megis darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r rhain yn faterion rheoli ar gyfer ATAau unigol, ac nid yn rhywbeth y gellid eu cynnwys mewn deddfwriaeth am strwythurau llywodraethu. Serch hynny, rydym yn annog ATAau i ystyried cyfleoedd o'r fath fel rhan o'u hymrwymiad parhaus i gefnogi'r iaith.

80. Bydd y Gorchymyn terfynol yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

## - <u>Materion Cysylltiedig</u>

**C16. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am lywodraethu, cyllid, rheoli perfformiad ac arolygu Awdurdodau Tân ac Achub. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael sylw penodol gennym, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle gwag hwn i'w nodi:**

81. Cododd 26 o ymatebwyr faterion cysylltiedig:

- Cododd saith ymatebydd faterion sy'n ymwneud â chyflawni gweithredol. Nododd un ymatebydd y dylai diwygio llywodraethu osgoi newidiadau i weithrediadau ac adnoddau rheng flaen. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o ymatebwyr eraill feysydd gweithredol y dylid eu cwmpasu gan y rhaglen ddiwygio gan gynnwys cynaliadwyedd ar alwad mewn ardaloedd gwledig, pwysau ar alw sy'n cael ei yrru gan yr hinsawdd, effaith twristiaeth, storio batris lithiwm, ffermydd gwynt, seilwaith hydrant dŵr gwledig, a blaenoriaethu diogelwch diffoddwyr tân, offer hyfforddi ac ymgysylltu â'r gymuned yn hytrach na newid strwythurol.

- Cododd chwech o ymatebwyr faterion sy'n ymwneud â gosod cyllideb, a chyfeiriodd tri ohonynt at braeseptio neu fodel tymor hwy trwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Awgrymodd un y byddai praeseptio yn peryglu cyllid ar gyfer gwasanaethau hanfodol ac argymhellodd archwiliad allanol o gynigion cyllideb yn lle hynny. Roedd un yn ceisio buddsoddiad parhaus mewn ATAau ac awgrymodd un y dylai diwygio cyllid ddilyn newidiadau aelodaeth, yn hytrach na chael ei wneud ar yr un pryd.

- Awgrymodd pedwar ymatebydd y dylid ystyried diwygio mwy radical, gan gynnwys un Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru.

- Cododd pedwar ymatebydd yr angen am reoli perfformiad ATAau yn fwy cadarn. Roedd y cynigion yn cynnwys fframwaith perfformiad a safonau cenedlaethol, gydag adrodd a meincnodi rheolaidd, a dull cyson ledled Cymru pan fydd materion perfformiad yn cael eu nodi.

82. Roedd materion eraill yn cynnwys:

- ymgysylltiad agosach a chraffu gan awdurdodau lleol,
- ymsefydlu gorfodol a hyfforddiant parhaus i aelodau'r ATAau,
- telerau penodi gwahanol ar gyfer aelodau annibynnol i ddarparu parhad,
- pwysigrwydd ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid a sicrhau bod gan bob undeb lais deg.
- pryderon am safon arweinyddiaeth, a'r angen i ailosod perthnasoedd rhwng swyddogion ac aelodau ATAau, gydag eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau,
- pwysigrwydd diwygio diwylliant a lles y gweithlu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

83. Rydym yn croesawu'r adborth a ddarperir gan ymgyngoreion ar feysydd ychwanegol y dylid eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

84. Mae materion sy'n ymwneud â chyflawni gweithredol yn bwysig iawn ond maent yn faterion y mae angen i ATAau sicrhau eu bod yn rhan o'u cynlluniau rheoli risg cymunedol. Mae'r rhan fwyaf o'r materion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Fframwaith Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub y

ymgynghorwyd arno ddiwedd 2025, ac a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ei ffurf derfynol ym mis Mawrth.  Byddwn hefyd yn sicrhau eu bod yn cael eu dwyn ar wahân i sylw ATAau.

## Y Camau Nesaf

85. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Bydd Llywodraeth Cymru nawr yn bwrw ymlaen â'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol i weithredu newidiadau i aelodaeth a chyllid ATAau.  Ein bwriad yw i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud a'i osod gerbron Senedd Cymru ym mis Mawrth 2026.

## Atodiad 1 – Rhestr o Ymatebwyr

- Archwilio Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Gwynedd
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Senedd Cymru
- Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub
- Undeb y Brigadau Tân
- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Ysgol Fusnes Nottingham
- Swyddogion Adran 151 (Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
- Comisiynwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
- 22 Ymateb Unigol
- 2 ymateb gan gyrff cyhoeddus a ofynnodd i gael bod yn anhysbys